



Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cymru a Lloegr): 'Fit for the Future'

Mae'r ymateb hwn i ymgynghoriad "Fit for the Future" CPLIL wedi'i baratoi gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Rydym yn cefnogi cyfeiriad y cynigion, i gwblhau trosglwyddo'r holl asedau sy'n weddill i reoli cronfeydd yn gyflym a'r bwriad i gynyddu manteision cronfeydd buddsoddiad CPLIL ymhellach, gan gynnwys cynyddu'r ffocws ar fuddsoddiad lleol a chefnogi twf y DU.

Rydym yn croesawu'r cyfle i roi mewnbwn i'r ymgynghoriad. Yn ein hymateb rydym wedi nodi lle rydym yn cefnogi cynigion yn llawn a lle mae gennym bryderon am y buddion, ymarferoldeb ac amseru. O ran amseru, bydd yn bwysig i'r llywodraeth (a) ganiatáu amser i lywodraethu awdurdodau lleol gymeradwyo newidiadau i Gytundebau Rhyng-Awdurdodau presennol sydd, mewn rhai achosion, angen cymeradwyaeth Cyngor Llawn; a (b) cadarnhau cynigion terfynol cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben gan y gallai fod yn anodd i awdurdodau lleol gymeradwyo camau gweithredu a dyrannu adnoddau ariannol ychwanegol i gefnogi gweithredu, gan gynnwys penodi personél cymwys priodol ar gyfer cwmni cronfeydd rheoledig yr FCA.

Mae PPC wedi ymrwymo i ddatblygu ei fodel gweithredu cronfeydd ymhellach i gydymffurfio'n llawn â gofynion y llywodraeth unwaith y caiff ei gadarnhau. Rydym yn datblygu cynlluniau i PPC barhau fel cronfa annibynnol, mewn sefyllfa unigryw i ddarparu buddion i aelodau'r cynllun CPLIL yng Nghymru a dod â buddion ehangach drwy fuddsoddiad lleol yng Nghymru. Mae gwaith eisoes ar y gweill.

Y Cyng. Elwyn Williams, Cadeirydd Cyd-bwyllgor Llywodraethu PPC

Dros ac ar ran PPC

	Cwestiwn	Ymateb
Cronni CPLIL		
1	Ydych chi'n cytuno y dylid gofyn i bob cronfa cyd-fuddsoddi ddiwallu'r safonau gofynnol o gronni a nodir uchod?	Cytuno i raddau. Edrych ar bob un o'r safonau gofynnol yn eu tro: 1) Cwmni cronfa cyd-fuddsoddi¹ - "cronfeydd cyd-fuddsoddi ... <i>â'r gofyn i gael eu sefydlu fel cwmnïau rheoli buddsoddi sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr FCA</i>" Credwn y gellir cyflawni manteision cyd-fuddsoddi gan ddefnyddio model gweithredu cronfeydd presennol PPC. Mae ychwanegu cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi i'r strwythur yn ychwanegu haen sylweddol arall o gost a chymhlethdod gweithredu. 2) Gweithredu'r Strategaeth – "Awdurdodau Gweinyddu (AG) ... <i>â'r gofyn i ddirprwyo gweithredu'r strategaeth honno yn llawn i'r gronfa</i>" Oes. Ar hyn o bryd mae PPC yn gweithredu ar y sail hon trwy weithredwyr y Gronfa ar gyfer asedau rhestredig a heb eu rhestru a thrwy benodi Russell Investment a dyranwyr cronfeydd sydd heb eu rhestru. 3) Cyngor strategaeth - "AG ... <i>â'r gofyn i gymryd prif gyngor ar eu strategaeth fuddsoddi o'r gronfa.</i>" Mae PPC yn rhannu barn y SAB y dylai awdurdodau gweinyddu gadw'r opsiwn o gymryd cyngor annibynnol a gallu adolygu unrhyw gyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd. Byddai hyn yn helpu i leddfu pryderon ynghylch y potensial ar gyfer gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig i Gwmni'r Gronfa Cyd-fuddsoddi. Gweler ein hymateb i C5 am fwy o fanylion. 4) Asedau etifeddol - "<i>trosglwyddo asedau etifeddol i reolwyr y gronfa.</i>" Mae gennym bryderon am risgiau posibl yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Gweinyddu (AG) drosglwyddo'r holl asedau etifeddol anhylifol i reolwyr cwmni cronfeydd cyd-fuddsoddi ar unwaith. Efallai y bydd ychydig neu ddim budd economaidd wrth wneud hynny, ac rydym yn credu y gallai mewn rhai achosion fod yn fwy diogel parhau i reoli'r rhediad i

¹Cwmni Rheoli Buddsoddi Rheoledig yr FCA

		aeddfedrwydd asedau etifeddol heb eu rhestru yn lleol oherwydd bod gan swyddogion AG lleol a'u hymgynghorwyr wybodaeth hanesyddol o'r buddsoddiadau penodol (e.e. amrywiol 'vintages' o fuddsoddiadau marchnad breifat) a phrosesau sefydledig i'w rheoli (gan gynnwys, er enghraifft, rheoli galwadau cyfalaf). Os yw'r llywodraeth yn gofyn am drosglwyddo rheolaeth asedau etifeddol i'r cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi bydd angen sicrhau bod cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn gwarchod asedau etifeddol ar ran perchnogion mewn ffordd sy'n osgoi niwed economaidd i'r Cronfeydd maent yn berchen arnynt e.e. trwy osgoi gwerthu asedau heb eu rhestru ar adeg amhriodol. Dylai cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi ymgynghori ag AG ar amser a dull priodol o drosglwyddo asedau etifeddol i gerbydau cronfeydd cyd-fuddsoddi. Gweler ein hymateb i C8. 5) Buddsoddiadau lleol – "<i>Cronfeydd cyd-fuddsoddi ... â'r gofyn i ddatblygu'r gallu i gynnal diwydrwydd dyladwy ar fuddsoddiadau lleol ac i reoli buddsoddiadau o'r fath.</i>" Mae PPC eisoes yn asesu buddsoddiadau lleol ar ran yr AG gan ddefnyddio ei reolwyr asedau heb eu rhestru ac ymgynghorwyr allanol eraill. Gall sefydlu tîm mewnol parhaol fod yn gost anghymesur o ystyried amllder ac amrywiaeth cyfleoedd buddsoddi o'r fath. Bydd PPC yn parhau â'i ddull presennol (trwy gwmni'r gronfa newydd) ac yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â chronfeydd cyd-fuddsoddi eraill mewn perthynas â chyfleoedd buddsoddi lleol / effaith.
2	Ydych chi'n cytuno y dylai'r strategaeth fuddsoddi a osodwyd gan yr awdurdod gweinyddu gynnwys amcanion buddsoddi lefel uchel, ac yn ddewisol, dyraniad asedau strategol lefel uchel, gyda'r holl weithgareddau gweithredu wedi'u dirprwyo i'r gronfa?	Dylai, ond nid yw'n ddigon i AG osod yr amcanion buddsoddi lefel uchel a dyrannu asedau strategol lefel uchel (SAA) yn unig. Dylai'r strategaeth fuddsoddi a osodwyd gan AG gynnwys 1) Amcanion lefel uchel 2) Dyrannu asedau strategol lefel uchel 3) Manylion ychwanegol gan gynnwys, er enghraifft, (i) dewisiadau dychweliad risg (gall fod amrywiadau mawr rhwng gwahanol fathau o fandad o fewn yr un dosbarth asedau); (ii) dewisiadau* ar gyfer buddsoddiad goddefol a gweithredol; (iii) anghenion strategol mewn perthynas â llif arian (bydd rhai cronfeydd unigol yn negyddol);

		(iv) strategaethau buddsoddi penodol i gyflogwyr lle mae'r rhain yn rhan o Ddatganiad Strategaeth Ariannu'r gronfa; (v) targedau sero net ar gyfer ei fuddsoddiadau. *Yn ffigwr 1 yr ymgynghoriad, o dan "amcanion buddsoddi" sy'n benderfyniad ar gyfer awdurdodau gweinyddu, mae'r llywodraeth yn cyfeirio at "ddewisiadau buddsoddi" yn benodol. Rydym yn cytuno y dylai cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi ymgymryd â'r gweithgaredd sy'n ofynnol i weithredu'r strategaeth fuddsoddi a bennir gan bob Awdurdod Gweinyddu yn y gronfa. Mae PPC eisoes yn gweithredu ar y sail hon.
3	Ydych chi'n cytuno y byddai strategaeth fuddsoddi ar y sail hon yn ddigonol i fodloni dyletswydd ymddiriedol yr awdurdod gweinyddu?	Na, mae ystyriaethau ychwanegol ar gyfer AG wrth gyflawni eu dyletswydd ymddiriedol. Dyletswydd ymddiriedol craidd yr AG yw cwrdd â thaliadau pensiwn pan fyddant yn ddyledus. Agwedd hanfodol ar hyn yw gallu bodloni gofynion llif arian, yn ddelfrydol osgoi gwerthu asedau gorfodol. Felly, mae manyleb gofynion llif arian yn hanfodol i fodloni cyfrifoldebau ymddiriedol. Mae agweddau pwysig eraill ar ddyletswydd ymddiriedol yn cynnwys: - penderfyniadau ar uchelgeisiau sero net (a all fod yn wahanol o gronfa i gronfa); - gwneud y mwyaf o ddychweliadau yn amodol ar y goddefgarwch risg y cytunwyd arno fel rhan o'r Datganiad Strategaeth Ariannu; a - dewisiadau lleol ar gyfer buddsoddiad gweithredol vs goddefol (hefyd yn gysylltiedig â goddefgarwch risg a bennwyd yn lleol).
4	Beth yw eich barn ar y templed arfaethedig ar gyfer dyrannu asedau strategol yn y datganiad strategaeth fuddsoddi?	Nid oes digon o fanylder yn y templed arfaethedig. Mae elfennau coll o'r templed yn cynnwys dewisiadau AG mewn perthynas â: (i) dewisiadau dychweliad risg (gall fod amrywiadau mawr rhwng mathau mandad o fewn dosbarth buddsoddi); (ii) buddsoddiad gweithredol v goddefol;

		(iii) uchelgeisiau sero net; (iv) cyfateb atebolrwydd; a (v) penodi dyraniad buddsoddiad lleol.
5	Ydych chi'n cytuno y dylai'r gronfa ddarparu cyngor buddsoddi ar strategaethau buddsoddi ei AG partner? Ydych chi'n gweld y byddai angen rhagor o gyngor neu fewnbwn er mwyn gallu ystyried cyngor a ddarperir gan y gronfa cyd-fuddsoddi – os felly, ym mha ffurf yr ydych chi'n rhagweld hynny?	Mae PPC yn rhannu barn y SAB* y dylai awdurdodau gweinyddu gadw'r opsiwn o gymryd cyngor annibynnol a gallu adolygu unrhyw gyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi. Byddai hyn yn helpu i leddfu pryderon ynghylch y potensial ar gyfer gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig i Gwmni'r Gronfa Cyd-fuddsoddi. (*Ymateb SAB i'r ymgynghoriad: <i>"mae gan y Bwrdd rai pryderon am arian sy'n ofynnol i (yn hytrach na dewis) gymryd cyngor buddsoddi gan y gronfa cyd-fuddsoddi... Pan fydd cronfa yn cymryd ei phrif gyngor gan y gronfa cyd-fuddsoddi, a chyngor annibynnol ar wahân gan ffynhonnell arall, yna ni ddylai fod unrhyw awgrym bod yn ofynnol iddi ddilyn cyngor y gronfa cyd-fuddsoddi lle maent yn wahanol."</i>) Mae gwerth mewn darparu cyngor strategaeth fuddsoddi yn annibynnol oddi wrth ddarparwr datrysiadau buddsoddi (cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi). Mae potensial ar gyfer gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig i'r cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn y dull a gynigir gan y llywodraeth. Enghraifft fyddai cyngor sydd wedi'i gyfyngu i ddosbarthiadau asedau a datrysiadau buddsoddi sydd ar gael i'r gronfa cyd-fuddsoddi ar hyn o bryd lle nad yw'r gronfa cyd-fuddsoddi wedi datblygu'r datrysiad buddsoddi sy'n ofynnol gan yr AG er mwyn diwallu eu rhwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus a'u cyfrifoldeb ymddiriedol e.e. diffyg asedau sy'n cynhyrchu incwm priodol sy'n ofynnol gan AG sydd mewn sefyllfa llif arian negyddol. Mae defnyddio ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol o gwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi hefyd yn galluogi adolygiad a newid rheolaidd drwy gaffael cystadleuol, gan annog cystadleuaeth ac arloesedd y farchnad sy'n darparu canlyniadau gwell i gronfeydd CPLIL a'u haelodau. Rhaid i'r llywodraeth ganiatáu i AG feirniadu unrhyw gyngor buddsoddi maent yn ei derbyn gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi, gyda chefnogaeth ymgynghorwyr annibynnol os oes angen. Dylai'r llywodraeth ganiatáu rhyddid i AG ddewis pwy sy'n darparu cymorth cynghori i feirniadu a herio cyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi. Efallai na fydd defnyddio "unigolion" annibynnol yn ddigonol. Dylai Awdurdodau Gweinyddu fod yn rhydd i dderbyn cyngor gan gwmnïau ymgynghori a all ddarparu ystod lawn o arbenigwyr pwnc, galluoedd ymchwil cyfoes a chynhwysfawr, cyngor a reoleiddir gan yr FCA lle bo angen a chyngor a adolygir gan gymheiriaid gydag yswiriant indemniad proffesiynol priodol ac yswiriant atebolrwydd.

		Mae angen i AG fod yn fodlon bod cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn gallu darparu'r ystod a'r ansawdd gofynnol o gyngor a bod gan dimau cyngori cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi y profiad, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol o rwymedigaethau CPLIL. Fel y mae'r llywodraeth yn nodi yn yr ymgynghoriad, ni fydd y gallu hwn ar waith erbyn mis Mawrth 2026 a bydd angen ei ddatblygu dros amser. Yn y cyfamser, dylai'r llywodraeth ganiatáu i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi allanoli'r gwaith i ymgynghorwyr buddsoddi CPLIL profiadol.
6	Ydych chi'n cytuno y dylai pob cronfa cyd-fuddsoddi gael ei sefydlu fel cwmnïau rheoli buddsoddi a awdurdodwyd gan yr FCA, a'u hawdurdodi i ddarparu cyngor perthnasol?	Rydym wedi ymrwymo i sefydlu cwmni rheoli buddsoddi a reolir gan yr FCA ("cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi") os oes angen gwneud hynny. Wedi dweud hynny, mae model gweithredu presennol PPC ar hyn o bryd yn cyflawni amcanion cyd-fuddsoddi'r llywodraeth heb gost ychwanegol sylweddol a chymhlethdod cwmni cronfa sy'n eiddo i AG. Nid yw'n glir y bydd hyn yn darparu unrhyw fuddion ariannol uniongyrchol i wrthbwysu costau ychwanegol. Mae gan gyngor buddsoddi annibynnol fanteision o'i gymharu â chyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi oherwydd (i) potensial ar gyfer gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi; (ii) y gallu i adolygu a newid cynghorwyr annibynnol o bryd i'w gilydd; (iii) cystadleuaeth sy'n gyrru arfer gorau, arloesedd ac effeithlonrwydd sydd o fudd i gronfeydd CPLIL; a (iv) yr anhawster i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi ddatblygu'r ystod lawn o alluoedd a phrofiad CPLIL (gan gynnwys dealltwriaeth o rwymedigaethau lleol ac anghenion llif arian a ragwelir) a ddarperir gan gwmnïau ymgynghori ar hyn o bryd. Mae gwerth cael rhywfaint o waith wedi'i ganoli a'i wneud ar y cyd ar lefel cronfa e.e. adolygu a newid rheolwyr, datblygu polisiau a phrosesau mewn perthynas â buddsoddi cyfrifol a phleidleisio ac ymgysylltu. O dan y model cronfa PPC presennol, mae'r holl weithgareddau hyn eisoes yn cael eu cynnal ar y cyd ar lefel cronfa cyd-fuddsoddi gyda chefnogaeth darparwyr gwasanaeth allanol.
7	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i drosglwyddo'r holl asedau rhestredig i gerbydau cyd-fuddsoddi a reolir gan gwmni eu cronfa cyd-fuddsoddi?	Dylent, ar gyfer asedau rhestredig a reolir yn weithredol. Mae gan PPC a chronfeydd CPLIL eraill eisoes fuddsoddiadau goddefol mewn cerbydau cyd-fuddsoddi nad ydynt yn cael eu rheoli gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi (megis polisiau bywyd). Ar gyfer buddsoddiadau goddefol rhestredig, mae trefniadau cyfredol ar gyfer PPC a chronfeydd eraill yn gost-effeithiol iawn ("buddion croesi" a buddion graddfa eraill a gyflawnir gan reolwyr goddefol sy'n fwy na'r rhai y gellid eu cyflawni mewn perthynas â buddsoddiadau goddefol cronfa sengl yn unig). Os bydd trosglwyddo buddsoddiadau goddefol i gerbydau a reolir gan gronfeydd yn cael ei orfodi, bydd AG yn wynebu costau ychwanegol (gan gynnwys costau pontio asedau sylweddol) heb ddigolledu buddion.

8	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i drosglwyddo buddsoddiadau anhylifol etifeddol i reolwyr y gronfa cyd-fuddsoddi?	Ni ddylai fod unrhyw fuddsoddiad newydd mewn asedau heb eu rhestru / anhylifol mewn cerbydau nad ydynt mewn cronfa cyd-fuddsoddi yn y dyfodol. Mae risgiau posibl yn ei gwneud yn ofynnol i bob AG drosglwyddo'r holl asedau anhylifol etifeddol i reolwyr cwmni cronfa cyd-fuddsoddi ar unwaith ym mis Mawrth 2026. Mae'n bosibl nad oes llawer o fudd economaidd mewn gwneud hynny, ac mewn rhai achosion efallai y bydd yn fwy diogel parhau i reoli rhediad i aeddfedrwydd asedau etifeddol heb eu rhestru yn lleol gan fod gan swyddogion AG lleol wybodaeth hanesyddol o'r buddsoddiadau penodol (e.e. amrywiol 'vintages' o fuddsoddiadau marchnad breifat) a phrosesau sefydledig i'w rheoli (gan gynnwys, er enghraifft, monitro a rheoli galwadau cyfalaf). Er mwyn mynd i'r afael â'r risg bosibl hon, efallai y byddai'n well caniatáu i AG a'u hymgynghorwyr reoli buddsoddiadau o'r fath i aeddfedrwydd neu sicrhau bod cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn parhau i dynnu ar wybodaeth a phrofiad lleol o'r asedau penodol. Os yw'r llywodraeth yn gofyn am drosglwyddo rheoli asedau etifeddol i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi, bydd yn hanfodol sicrhau bod cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn ymarfer y lefel briodol o ofal dyledus. Yn benodol, bydd angen sicrhau bod cronfeydd cyd-fuddsoddi yn gwarchod asedau etifeddol ar ran perchnogion mewn ffordd sy'n osgoi niwed economaidd i'r Cronfeydd maent yn berchen arnynt e.e. trwy osgoi gwerthu asedau heb eu rhestru ar adeg amhriodol. Dylai cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi ymgynghori ag AG ar amser a dull priodol o drosglwyddo asedau etifeddol i gerbydau cronfeydd cyd-fuddsoddi.
9	Pa gapasiti ac arbenigedd y byddai angen i'r cronfeydd cyd-fuddsoddi ddatblygu i ymgymryd â rheoli asedau etifeddol y cronfeydd partner a phryd y gellid cyflawni hyn?	Gweler yr ymateb i C8. Mae'r wybodaeth angenrheidiol am asedau etifeddol penodol heb eu rhestru a'r prosesau sefydledig i'w rheoli gyda'r AG ar hyn o bryd sy'n berchen ar yr asedau etifeddol hyn. Gall symud rheolwyr i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi nad oes ganddynt y wybodaeth hanesyddol hon o'r buddsoddiadau hyn a phrosesau sefydledig i'w rheoli ychwanegu risg a chost. Os yw'r llywodraeth yn gorfodi trosglwyddo rheoli asedau etifeddol i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi, bydd PPC yn penodi swyddog cronfa gyda chyfrifoldeb am asedau etifeddol. Byddai gan bob AG PPC Gytundeb Rheoli Buddsoddi gyda chwmni cronfa cyd-fuddsoddi PPC mewn perthynas â'i asedau etifeddol ei hun. Bydd yr IMA yn grymuso cwmni cronfa cyd-fuddsoddi PPC i reoli'r asedau hynny gyda gofal a diwydrwydd priodol ar ran yr AG y maent yn perthyn iddo. Bydd asedau etifeddol yn parhau i gael eu dyrannu i'r AG hwnnw nes y byddant yn aeddfedu ac yn cael eu trosglwyddo i ddatrysiadau cronfa cyd-fuddsoddi. Byddai'r swyddog cronfa cyd-fuddsoddi hwn sy'n gyfrifol am asedau etifeddol yn cael ei gynorthwyo gan reolwyr buddsoddi rhestredig a heb eu rhestru i ystyried amseru a dulliau priodol o waredu asedau etifeddol a cherbydau cyd-fuddsoddi priodol ar gyfer buddsoddi'r enillion gwerthu. Byddai cymorth hefyd yn cael ei dderbyn gan ymgynghorwyr arbenigol priodol.

		Byddai'r swyddog cronfa cyd-fuddsoddi sy'n gyfrifol yn ymgysylltu â pherchnogion asedau ac ymgynghori â nhw ar amseriad arfaethedig a dulliau gwaredu asedau etifeddol, a'r cerbyd cyd-fuddsoddi arfaethedig i gymryd enillion gwerthu, yn unol â'r strategaeth fuddsoddi a benderfynwyd yn lleol gan yr AG. Mae'n bwysig nodi y bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i drosglwyddo'r holl asedau etifeddol. Er enghraifft, byddai daliadau ecwiti preifat presennol yn debygol o gael eu dal tan eu haeddfedrwydd naturiol yn hytrach na chael gwaredu cynharach mewn marchnadoedd eilaidd ar brisiadau disgownt a fyddai'n dinistrio gwerth i'r perchennog asedau.
10	A oes gennych farn ar yr amserlen ddangosol ar gyfer gweithredu, gyda chronfeydd cyd-fuddsoddi yn mabwysiadu'r nodweddion arfaethedig a chyd-fuddsoddi wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2026?	Er bod PPC wedi ymrwymo i gwrdd ag amserlenni'r llywodraeth, credwn fod yr amserlenni yn heriol iawn. Yn benodol, mae'r amserlen a awgrymir yn anafteisio cronfeydd cydfuddsoddi sydd ar hyn o bryd â modelau gweithredu gwahanol i'r hyn sy'n cael ei ffafrio gan y llywodraeth erbyn hyn. Gallai amserlen sy'n rhy fyr hefyd arwain at ddulliau gweithredu is-optimaidd neu dan fygythiad y gellid, gyda mwy o amser, eu hosgoi. Mae'n bwysig y dylai'r amserlen ar gyfer gweithredu ddarparu ar gyfer amserlenni cymeradwyo llywodraethu awdurdodau lleol. Ar gyfer pob un neu'r rhan fwyaf o gronfeydd, mae newidiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth AG (gan Gynghorau llawn a/neu bwyllgorau S101) yn debygol. Mae PPC yn cael ei lywodraethu gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) cyfreithiol rhwymol sy'n cynnwys rhai materion a gedwir yn ôl sy'n gofyn am gytundeb lleol. Bydd angen dad-ddirwyn a newid hyn. Gall fod yn anodd neu'n amhosibl i Awdurdodau Gweinyddu gymeradwyo camau gweithredu gyda chostau materol (megis llogi personél ar gyfer cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi) yn absenoldeb rheoliadau (ar ffurf ddrafft o leiaf). Mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau mewn rheoliadau y mae'r llywodraeth yn eu gwneud yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol i atal oedi cymeradwyo awdurdodau lleol a allai ei gwneud hi'n amhosibl cwrdd ag amserlen y llywodraeth.
11	Pa sgôp sydd ar gael i gynyddu cydweithredu rhwng cronfeydd cyd-fuddsoddi, gan gynnwys rhannu arbenigeddau neu arbenigedd lleol penodol? A oes unrhyw rwystrau ar gyfer cydweithio o'r fath?	Mae PPC yn agored i gyfleoedd i gydweithio ar ddatrysiadau dosbarth asedau penodol a bydd yn parhau i gael deialog â chronfeydd eraill a allai nodi meysydd o fudd i'r ddwy ochr. Byddai amserlen weithredu hirach yn caniatáu archwilio posibiliadau o'r fath yn briodol. Bydd amserlenni byr ar gyfer gweithredu yn achosi i gronfeydd cyd-fuddsoddi flaenoriaethu'r camau sydd eu hangen i sicrhau bod eu cronfa cyd-fuddsoddi eu hunain yn cydymffurfio â gofynion newydd trwy ba bynnag ffordd y mae'r amserlen yn ei ganiatáu.

12	Pa botensial sydd ar gyfer cydweithio rhwng cronfeydd partner yn yr un gronfa cyd-fuddsoddi ar faterion fel gweinyddu a hyfforddiant? A oes meysydd eraill lle gallai mwy o gydweithio fod yn fuddiol?	Credwn fod potensial ar gyfer cydweithio rhwng cronfeydd partner yn yr un gronfa cyd-fuddsoddi mewn meysydd fel gweinyddu aelodau a hyfforddiant. Mae gweithredu cydweithredu ar weinyddiaeth aelodau yn ymarfer nad yw'n ddibwys ac mae'n annhebygol y gellid ei symud ymlaen ochr yn ochr â'r cam nesaf o gyd-fuddsoddi. Mae gan PPC gynllun hyfforddi blynyddol eisoes ar gyfer Awdurdodau Gweinyddu.
Buddsoddiad Lleol		
13	Beth yw eich barn chi ar y diffiniad priodol o 'fuddsoddiad lleol' at ddibenion adrodd?	Mae PPC yn cydnabod disgwyliad y llywodraeth y dylid ystyried "lleol" ledled y DU, gan ddefnyddio asedau CPLIL i gefnogi twf y DU. Ar yr un pryd, o ystyried ei sefyllfa unigryw a'i gymhelliant i gefnogi buddsoddiad yng Nghymru, a dyna le bydd PPC yn blaenoriaethu ei hymdrechion buddsoddi lleol, gan adeiladu ar waith a wnaed hyd yma. Byddem yn disgwyl i fuddsoddiadau "lleol" ganolbwyntio ar fuddsoddiadau heb eu rhestru (isadeiledd, ecwiti preifat, ac ati), gan gynnwys rhai cyfleoedd buddsoddi llai sydd â photensial i gael effaith a gwerth uchel yn lleol. Felly, byddem yn disgwyl i adrodd eithrio buddsoddiadau mewn ecwiti, bondiau a chredyd rhestredig yn y DU (ond yn cynnwys eiddo tiriog – bydd gan Gronfa Effaith PPC darged Cymru). Bydd PPC yn adrodd am fuddsoddiad lleol yng Nghymru a buddsoddiadau lleol yng ngweddill y DU ar wahân.
14	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu weithio gyda'u Hawdurdod Cyfunol, Awdurdod Cyfunol Maerol, Awdurdod Sir Cyfunol, Cyd-bwyllgor Corfforedig neu gydag awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle nad yw'r rhain yn bodoli, i nodi cyfleoedd buddsoddi lleol addas, ac i ystyried cynlluniau twf lleol a blaenoriaethau twf lleol wrth osod eu strategaeth fuddsoddi? Sut fydddech chi'n rhagweld y byddai'ch cronfa cyd-fuddsoddi yn ceisio cyflawni hyn?	Dylent. Mae PPC yn bwriadu penodi swyddog gyda chyfrifoldeb am gyfleoedd buddsoddi lleol. Bydd eu cyfrifoldebau yn cynnwys cysylltu ag awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i nodi cyfleoedd buddsoddi posibl sy'n cefnogi blaenoriaethau twf lleol. Bydd pennaeth buddsoddiad lleol PPC yn cael cymorth gan reolwyr buddsoddi PPC sydd heb eu rhestru, fydd yn cefnogi DD ar gyfer cyfleoedd perthnasol mewn gwahanol ddosbarthiadau asedau (isadeiledd, dyled breifat, credyd preifat, ac ati). Bydd ymgynghorwyr allanol arbenigol hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer DD ar gyfleoedd lleol penodol nad ydynt yn cyd-fynd â mandadau rheolwyr y gronfa cyd-fuddsoddi sydd heb eu rhestru.

15	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu nodi eu hamcanion ar fuddsoddiad lleol, gan gynnwys amrediad targed yn eu datganiad strategaeth fuddsoddi?	Dylent. Fel y nodwyd yn gynharach, dylid newid y templed arfaethedig ar gyfer AG i bennu strategaeth fuddsoddi a benderfynwyd yn lleol i gynnwys manyleb yr amrediad targed ar gyfer buddsoddiad lleol.
16	Ydych chi'n cytuno y dylid gofyn am gronfeydd cyd-fuddsoddi i ddatblygu'r gallu i gynnal diwydrwydd dyladwy ar gyfleoedd buddsoddi lleol ac i reoli buddsoddiadau o'r fath?	Dylid. Mae PPC yn bwriadu penodi swyddog gyda chyfrifoldeb penodol am gyfleoedd buddsoddi lleol (gweler C14) O ystyried y niferoedd cymedrol tebygol o gyfleoedd o'r fath, efallai na fydd yn gwneud synnwyr cael yr holl sgiliau angenrheidiol fel penodi i rolau mewnol (buddsoddiad, diwydrwydd dyladwy ac arbenigedd a phrofiad cyfreithiol ar draws ystod eang] o fathau o fuddsoddiadau lleol / effaith). Yn lle hynny, dylai cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi allu tynnu ar arbenigwyr allanol profiadol perthnasol i asesu cyfleoedd a chynnal DD cyn bwrw ymlaen. Mewn theori, mae hwn yn faes lle gall cydweithio rhwng cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi fod yn ddefnyddiol (e.e. DD a rennir ar gyfer cyd-fuddsoddi gan wahanol gwmnïau cronfeydd). Yn ymarferol, efallai na fydd hyn yn ymarferol i PPC o ystyried ei nod o ganolbwyntio ar fuddsoddiad lleol yng Nghymru.
17	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu adrodd ar eu buddsoddiadau lleol a'u heffaith yn eu hadroddiadau blynyddol? Beth ddylid ei gynnwys yn yr adroddiadau hyn?	Dylent. Yn ogystal ag adrodd ar berfformiad buddsoddi arferol, dylai adrodd ar fuddsoddiad lleol gynnwys y manteision a gyflawnir gan y buddsoddiad (economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol).
Llywodraethu cronfeydd		
18	Ydych chi'n cytuno â'r dull cyffredinol o lywodraethu, sy'n adeiladu ar argymhellion Llywodraethu Da y SAB?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
19	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i baratoi a chyhoeddi strategaeth lywodraethu a	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.

	hyfforddi, gan gynnwys polisi gwrthdaro buddiannau?	
20	Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn â phenodi uwch swyddog CPLIL?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
21	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i baratoi a chyhoeddi strategaeth weinyddol?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
22	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i newid y ffordd y mae strategaethau ar lywodraethu a hyfforddiant, cyllid, gweinyddu a buddsoddiadau yn cael eu cyhoeddi?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
23	Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn ag adolygiadau llywodraethu annibynnol bob dwy flynedd? Beth yw eich barn ar y fformat a'r meini prawf asesu?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
24	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fynnu bod gan aelodau'r pwyllgor pensiynau wybodaeth a dealltwriaeth briodol?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
25	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fynnu bod Awdurdodau Gweinyddu yn nodi yn eu strategaeth llywodraethu a hyfforddiant sut y byddant yn sicrhau bod y gofynion newydd ar wybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu bodloni?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.

26	Beth yw eich barn chi p'un a ddylid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu benodi person annibynnol fel ymgynghorydd neu aelod o'r pwyllgor pensiwn, neu ffyrdd eraill o gyflawni'r nod?	Mae ein barn ar hyn yn debyg i'r rhai ar C5. Dylid, dylai awdurdodau gweinyddu benodi ymgynghorydd / cwmni cynghori annibynnol (nid o reidrwydd yn unigolyn) i ddarparu cyngor i'r pwyllgor pensiynau (heb gael ei benodi fel aelod o'r pwyllgor). O ystyried eu cyfrifoldebau ymddiriedol, mae'n bwysig bod AG yn rhydd i gymryd cyngor annibynnol. Dylai rhan o'r rôl hon gynnwys beirniadu a herio unrhyw gyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi. Dylai AG fod yn rhydd i ddewis cymorth cynghori annibynnol gan unigolion neu gwmnïau ymgynghori. Fodd bynnag, efallai na fydd defnyddio "unigolion" annibynnol yn ddigonol. Dylai Awdurdodau Gweinyddu fod yn rhydd i dderbyn cyngor gan gwmnïau ymgynghori a all ddarparu ystod lawn o arbenigwyr pwnc, galluoedd ymchwil cyfoes a chynhwysfawr, cyngor a reoleiddir gan yr FCA lle bo angen a chynghor a adolygir gan gymheiriaid gydag yswiriant indemniad proffesiynol priodol ac yswiriant atebolrwydd.
Llywodraethu cronfeydd		
27	Ydych chi'n cytuno y dylai byrddau cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi gynnwys un neu ddau o gynrychiolwyr cyfranddalwyr?	Mae'n hanfodol y dylai'r AG sy'n gyd-gyfranddalwyr cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi a chleientiaid / buddsoddwyr gael cynrychiolaeth ar fwrdd cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi. Yn ddelfrydol, ni fyddai nifer y cynrychiolwyr cyfranddalwyr yn cael eu hamodi. Bydd angen i'r FCA weld cyfansoddiad arfaethedig a chylch gorchwyl Bwrdd cwmni'r gronfa fel rhan o'r broses ar gyfer awdurdodi cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi. Yr FCA ddylai fod yn feirniad o ran cymysgedd a'r sgiliau priodol o gynrychiolwyr aelodau'r Bwrdd.
28	Beth yw eich barn chi ar y ffordd orau o sicrhau bod barn a diddordebau aelodau yn cael eu hystyried gan y cronfeydd cyd-fuddsoddi?	Dylai hyn fod trwy lywodraethu cronfa cyd-fuddsoddi ar ochr y cleient. Mae gan bob cronfa cyd-fuddsoddi nifer o grwpiau llywodraethu ochr y cleientiaid, yn aml gan gynnwys Cyd-bwyllgor Cadeiryddion pwyllgorau A101 yr AG. Mewn llawer neu'r rhan fwyaf o gronfeydd cyd-fuddsoddi, mae cynrychiolaeth o aelodau'r cynllun eisoes. Mae hyn yn darparu sianel ar gyfer llais a chynrychiolaeth aelodau'r cynllun wrth oruchwyllo'r gronfa a'r cerbydau buddsoddi mewn agweddau sy'n berthnasol i aelodau'r cynllun (e.e. perfformiad, polisïau RI, ac ati)
29	Ydych chi'n cytuno y dylai cronfeydd cyd-fuddsoddi adrodd yn gyson a gyda mwy o dryloywder, gan gynnwys perfformiad a chostau? Pa fetrigau ydych chi'n meddwl	Dylent, rydym yn cytuno y dylai fod adroddiadau tryloyw a chyson ar berfformiad a chostau.

	fyddai'n fuddiol i'w cynnwys yn yr adroddiadau hyn?	Mae'r rhan fwyaf o gronfeydd cyd-fuddsoddi eisoes wedi datblygu dulliau gweddol dda i adrodd ar berfformiad buddsoddi i fuddsoddwyr (dychweliadau buddsoddiadau, costau) ac mae gan rai cronfeydd cyd-fuddsoddi hefyd DPA darparu gwasanaeth sy'n cael eu monitro yn rheolaidd. Dylai'r rhain gael eu datblygu ymhellach. Dylai adrodd costau gynnwys nid yn unig costau rheoli buddsoddiadau, ond tryloywder llawn costau cyd-reoli cronfeydd cyd-fuddsoddi a chostau holl wasanaethau trydydd parti (swyddogaethau allanol, ymgynghorwyr, adneuo, cadw a phob costau darparwr gwasanaeth eraill). Dylai hyn fod mewn termau £ a chanran yr asedau. Dylid cyhoeddi data costau sy'n dangos dadansoddiad rhwng costau cwmni cronfa cyd-fuddsoddi, costau rheoli buddsoddiadau (mewnol ac allanol) a chostau eraill mewn ffordd sy'n galluogi cymariaethau teg. Dylid meincnodi perfformiad buddsoddi yn erbyn amcanion mandad priodol ac yn erbyn rheolwyr buddsoddi grŵp cymheiriaid. Dylid cynnal cymariaethau meincnod cost buddsoddi hefyd o bryd i'w gilydd. Rydym yn cydnabod bod angen gofal ar gymariaethau grwpiau cymheiriaid i sicrhau cymariaethau teg, tebyg. Gall darparwyr gwasanaeth meincnod proffesiynol ddarparu dadansoddiad o'r fath o bryd i'w gilydd i nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
Effeithiau Cydraddoldeb		
30	Ydych chi'n ystyried bod unrhyw grwpiau penodol sydd â nodweddion gwarchodedig a fyddai naill ai'n elwa neu'n cael eu hanfanteisio gan unrhyw un o'r cynigion? Os felly, rhwch ddata neu dystiolaeth berthnasol.	Na. Nodwn y bydd angen i PPC allu darparu'r holl gyfathrebiadau yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.